# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

*Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru*

*Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)*
*Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)*

## Rhagymadrodd

1.1. Dyroddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"[1]).

1.2. Mae hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o'r Ddeddf ac yn ganllawiau o dan adran 2 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"[2]).

1.3. **Rhaid** i awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r gofynion yn y Cod hwn. Nid yw adran 147 o'r Ddeddf (gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn gymwys i unrhyw ofynion sydd wedi'u cynnwys.

1.4. Er mwyn sicrhau bod gan y Cod rym tebyg mewn perthynas ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn wrth arfer eu priod swyddogaethau.

1.5. Mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn cael cyfarwyddyd i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod (sy'n ganllawiau i gyrff iechyd perthnasol o dan adran 2 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 drwy 'Y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar Gomisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru 2023'[3]).

1.6. **Rhaid** i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn.

1.7. Yn ogystal â hyn, rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG roi sylw i unrhyw ganllawiau a nodir yn y Cod.

1.8. Yn y cod hwn, mynegir gofyniad fel "**rhaid**" neu "**ni chaiff/ni chaniateir**". Mae canllawiau'n cael eu mynegi fel "caiff" neu "**dylai/dylid/dylent**" neu "**ni ddylai**".

1.9. **Dylid** darllen y Cod hwn ar y cyd â'r holl godau ymarfer a chanllawiau a ddyroddir o dan y Ddeddf, ond yn benodol:

a) Cod Ymarfer Rhan 8 ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)
b) Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)
c) Codau a chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

1.10. Yn ganolog i gydgynhyrchu'r Cod hwn oedd sefydlu Grŵp Technegol Cenedlaethol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr â'r arbenigedd, yr wybodaeth dechnegol a'r profiad ymarferol perthnasol i weithio gyda

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh
[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/42/contents?lang=en
[3] Dyma'r teitl dros dro nes bod yr offeryn statudol hwn wedi'i gwblhau.

swyddogion ar y polisi manwl sy'n angenrheidiol i ddatblygu'r Cod Ymarfer a fydd, yn ei dro, yn cyflawni'r dyheadau polisi sy'n sail i'r Ddeddf.

1.11. Mae'r Cod yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru. Mae'r Cod hwn yn nodi egwyddorion a safonau ar gyfer arferion comisiynu, felly er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod hwn, efallai y bydd angen i gomisiynwyr wneud darpariaethau yn eu trefniadau contractio i sicrhau bod eu cyfrifoldebau statudol yn y Cod yn cael eu cyflawni. Bydd angen i gomisiynwyr fod â mecanweithiau monitro a gwerthuso priodol ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

1.12. Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu ac yn diweddaru 'pecyn cymorth' o adnoddau megis enghreifftiau o arferion nodedig, astudiaethau achos a thystiolaeth, adnoddau comisiynu, a chymalau templed, i helpu comisiynwyr i gyflawni'r Cod hwn. Bydd y pecyn hwn yn cael ei reoli a'i ddiweddaru gan staff pwrpasol yn y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth.

Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth

1.13. Bydd Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth ("y Swyddfa Genedlaethol") yn cael ei sefydlu yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Bydd yn chwarae rhan bwysig yn y canlynol:

a) goruchwylio a chefnogi'r gwaith o weithredu a rheoli'r fersiwn gyntaf o'r Cod, a fersiynau dilynol;
b) cefnogi comisiynwyr i lynu wrth y gofynion yn y Cod hwn ac wrth godi safonau (cysondeb a gwelliant);
c) gweithredu fel adnodd canolog o arferion gorau ar gyfer comisiynu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cod;
d) cefnogi comisiynwyr lleol a rhanbarthol o ran unrhyw heriau sylweddol sy'n ymwneud â goruchwylio'r farchnad; ac
e) cefnogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Cod[4] bob 2 flynedd i sicrhau ei fod yn aros yn gyfredol ac yn cyd-fynd â dyheadau arferion comisiynu (bydd hyn yn cynnwys newidiadau i gefnogi'r newid i fodelau gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal).

1.14. Efallai y bydd rhagor o ganllawiau comisiynu anstatudol yn cael eu cyhoeddi rhwng cyfnodau adolygu 2 flynedd ffurfiol y Cod, lle bydd arferion comisiynu a gweithredu penodol yn cael eu hyrwyddo, er mwyn cyflymu arferion da a gwella canlyniadau.

1.15. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn creu ac yna'n diweddaru pecyn cynhwysfawr o adnoddau i helpu comisiynwyr i fodloni gofynion y Cod hwn ac i adlewyrchu newidiadau i arferion comisiynu. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi'r newid i fodelau gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

[4] Mae'r pŵer i ddiwygio a dyroddi'r Cod o dan adran 145 o'r Ddeddf yn aros gyda Gweinidogion Cymru.

**Diffiniad o Ofal a Chymorth**

1.16. At ddibenion y Cod hwn, mae gan y term 'gofal a chymorth' yr un ystyr ag yn adran 4 o'r Ddeddf. Felly, mae unrhyw gyfeiriadau at ofal a chymorth yn y Cod hwn i’w dehongli fel cyfeiriad at ofal, cymorth, a gofal a chymorth gyda’i gilydd.

1.17. Mae adrannau 35 i 45 o’r Ddeddf yn cynnwys y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a phlant, ac anghenion cymorth gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr sy’n oedolion, a gofalwyr ifanc. Mae adran 34(1) o’r Ddeddf yn rhoi enghreifftiau o’r ffyrdd y caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion o dan adrannau 35 i 45 ac mae adran 34(2) yn nodi enghreifftiau o’r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person am ‘ofal a chymorth’.

1.18. Mae’r Cod hwn yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddiwallu anghenion gofal a chymorth poblogaethau lleol (oedolion, plant, teuluoedd a gofalwyr) drwy’r canlynol:

a) awdurdod lleol – boed y rhain yn wasanaethau sy’n cael eu darparu’n fewnol neu’n cael eu comisiynu’n allanol, p’un ai a ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 neu wasanaethau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, gan gynnwys gwasanaethau sy’n cael eu darparu ar ran yr Awdurdod Lleol gan y trydydd sector, sefydliadau preifat neu gwmnïau cydweithredol.
b) Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau’r GIG, boed y rhain yn wasanaethau sy’n cael eu darparu’n fewnol neu’n cael eu comisiynu’n allanol, p’un ai a ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan RISCA 2016 neu nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan gynnwys gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan sefydliadau nad ydynt yn rhan o’r GIG, y trydydd sector, sefydliadau preifat neu gwmnïau cydweithredol lle maent yn wasanaethau gofal a chymorth yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) e.e. gofal cartref, cartrefi gofal yng nghyd-destun Gofal Iechyd Parhaus a/neu Ofal Nyrsio a Ariennir. Bydd y Cod hwn hefyd yn berthnasol pan fydd y GIG yn rheoli cartrefi gofal gyda nyrsio.

1.19. Trefniadau comisiynu cydweithredol, ar y cyd neu integredig (Awdurdodau Lleol a’r GIG) ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth gan gynnwys unrhyw drefniadau partneriaeth ffurfiol yn cynnwys trefniadau rhwng cyrff y GIG ac awdurdodau lleol o dan adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a gwasanaethau rhanbarthol sy’n cael eu datblygu drwy drefniadau ffurfiol o dan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

1.20. Nid yw’r Cod hwn yn berthnasol i’r canlynol:

a) gwasanaethau sy’n cael eu darparu neu’n cael eu trefnu gan awdurdod lleol nad ydynt yn wasanaethau gofal a chymorth nac yn wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;
b) gwasanaethau iechyd, fel y’u diffinnir ym mharagraff 1.22, sy’n cael eu darparu yn uniongyrchol gan y GIG neu sy’n cael ei gomisiynu ganddo i ddarparu lleoliadau mewn ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol (Ymarfer Meddygol, Deintyddiaeth, Optometreg, Fferylliaeth)
c) gofal a chymorth sy’n cael ei ddarparu i unigolyn drwy daliadau uniongyrchol (h.y. y trefniadau rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a’r sawl sy’n darparu’r gwasanaeth).

Gofal iechyd a gwasanaethau iechyd

1.21. Nid yw’r Cod hwn yn berthnasol i ofal iechyd. At ddibenion y Cod hwn, mae gan ofal iechyd yr un ystyr ag yn adran 17(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 sy’n darparu bod “gofal iechyd” yn golygu:

(a) gwasanaethau sy’n cael eu darparu i unigolion ar gyfer neu mewn cysylltiad ag atal, canfod neu drin salwch, a
(b) hybu a diogelu iechyd y cyhoedd.

**Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth**

1.22. Mae’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ceisio trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cyflawni dau brif amcan:

a) Gwasanaethau sy’n sicrhau llesiant dinasyddion: “yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw” yn ôl eu diffiniad eu hunain.
b) Gwasanaethau sy’n gynaliadwy er gwaethaf tueddiadau demograffig.

1.23. Mae’r Cod hwn yn nodi fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.

1.24. At ddibenion y Cod hwn, mae comisiynu’n golygu gwneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau sydd eu hangen i ymateb i anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, yng Nghymru. Mae hefyd yn golygu gwneud penderfyniadau ynghylch capasiti, lleoliad, costau ac ansawdd gwasanaethau ynghyd â sut y byddant yn cael eu darparu a chan bwy.

1.25. Mae comisiynu’n cynnwys cynllunio, caffael a gwerthuso neu adolygu gwasanaethau. Mae’n ymwneud â chyflawni cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol, a’r GIG o ran llunio gwasanaethau i atal neu oedi, pan fo’n bosibl, angen am ofal a chymorth ac i ymateb i anghenion gofal a chymorth pobl nawr ac yn y dyfodol.

1.26. **Dylai** comisiynu fod yn seiliedig ar werthoedd craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, cydgynhyrchu ac amlasiantaeth.

1.27. Mae Cod Ymarfer Rhan 8 ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) yn nodi prif themâu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sef:

- **Ffocws ar bobl** – sicrhau bod pobl yn gallu mynegi eu barn a bod ganddynt reolaeth ar y gofal a'r cymorth a gânt, er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt ac er mwyn sicrhau hefyd bod gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u datblygu o amgylch pobl.
- **Llesiant** – mesur llwyddiant o safbwynt canlyniadau i bobl yn hytrach na phroses.
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar** – sicrhau bod gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar yn digwydd er mwyn lleihau'r graddau y mae angen yn gwaethygu a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
- **Partneriaeth ac integreiddio** – pob asiantaeth a sefydliad, gan gynnwys ym maes iechyd, yn cydweithredu ac yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl yn y ffordd orau posibl.
- **Hygyrchedd** – gwella'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i bobl a sicrhau bod pawb, ni waeth beth fo'u hanghenion, yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth honno.
- **Modelau gwasanaeth newydd** – datblygu modelau newydd ac arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau, yn enwedig modelau sy'n cynnwys y defnyddwyr gwasanaethau eu hunain.


1.28. Mae'r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd sicrhau bod gweithgareddau ac arferion comisiynu wir yn cyflawni dyheadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer holl bobl Cymru.

1.29. Mae comisiynu wedi cael ei sefydlu fel proses bwysig i helpu i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau a sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd angen gofal a chymorth. Ar draws Cymru, ceir eisoes lawer o enghreifftiau o arferion comisiynu a chaffael da, ond mae anghysondeb yn y ffordd y caiff gwasanaethau gofal a chymorth eu comisiynu.

Y Cylch Comisiynu

1.30. Mae'r cylch comisiynu yn Ffigur X[5] yn dangos set o weithgareddau trawsnewid rhyngddibynnol ar draws swyddogaethau comisiynu, caffael a gwerth cymdeithasol gyda'r nod o sicrhau canlyniadau da i bobl. Mae perthynas symbiotig rhwng y tair elfen, ac nid ydynt yn swyddogaethau unigol ar wahân.

[5] Addaswyd o 'The Institute of Public Care Commissioning Cycle (IPC, 2008)'




## Comisiynu

1.31. Mae gwaith comisiynu'n cael ei wneud i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei asesu, ei gynllunio a'i drefnu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn y ffordd orau, ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.

1.32. Mae'n golygu deall anghenion unigolion a'r boblogaeth, sefydlogrwydd a digonolrwydd marchnadoedd a darparwyr gofal, ac argaeledd adnoddau lleol (gan gynnwys cyllid, y gweithlu a'r ystod o asedau cymunedol) gan alluogi comisiynwyr i ddeall cymunedau lleol ac mae'n ddigon posibl y bydd y rhain yn amrywio yn dibynnu ar yr angen a'r asedau lleol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fodelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynnig gwerth i'r cyhoedd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth gyfun hon, mae comisiynwyr yn datblygu cysylltiadau a threfniadau ar draws

system gyfan, i gynllunio, gweithredu ac adolygu ymyriadau sy'n diwallu anghenion pobl am ofal a chymorth.

1.33. Mae comisiynu'n golygu bod angen edrych ar y system gyfan a'r gallu i feithrin a hwyluso amrywiaeth o berthnasoedd cydweithredol a chydgynhyrchiol. Y canlyniad a rennir yw sicrhau hawliau pobl i allu mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, cymryd rhan mewn penderfyniadau a chael cymorth drwy eiriolaeth i'w galluogi i wneud hynny.

<u>Caffael</u>

1.34. Cyfres o weithgareddau trafodiadol sy'n sicrhau gwasanaethau yw caffael. Mae'n golygu pennu gofynion drwy fanylebau, sicrhau gwerth cyhoeddus drwy brynu nwyddau drwy'r llwybr mwyaf priodol e.e. tendro, a monitro effeithiolrwydd gwasanaethau.

<u>Gwerth Cymdeithasol</u>

1.35. Gall sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddarparu Gwerth Cymdeithasol. Mae'n galluogi pobl i gyflawni eu llesiant drwy ddarparu gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n darparu elfen o werth cymdeithasol yn eu cymunedau.

1.36. Gall gwasanaethau gofal a chymorth ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau budd dwyochrog ac i gefnogi dyfeisgarwch a chadernid cymunedol.

1.37. Mae gwasanaethau gofal a chymorth hefyd yn bwysig ar gyfer hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol. Pan fyddant yn cael eu darparu'n effeithiol, maent yn hyrwyddo urddas, yn cefnogi byw'n annibynnol ac yn galluogi pobl i gynnal perthynas a chysylltiadau â'r gymuned ehangach.

1.38. Gall comisiynu gwasanaethau'n lleol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol hefyd leihau gwastraff ac ôl troed carbon a galluogi pobl i gymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol lleol.

1.39. Mae gwerth economaidd yn cael ei gyflawni pan fydd tâl i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn deg ar draws y sector.

1.40. Mae modelau darparu gwerth cymdeithasol yn cael eu diffinio yn ôl eu gallu i gyflawni yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf (canlyniadau llesiant; cydgynhyrchu, llais a rheolaeth; cydweithio a phartneriaeth; atal ac ymyrryd yn gynnar) ac i ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a **dylai** comisiynwyr ystyried hyn yn eu prosesau comisiynu.

### Egwyddorion comisiynu cyson, moesegol, effeithiol a thrawsnewidiol

1.41. Mae'r hyn sy'n bwysig i bobl sydd angen gwasanaethau gofal a chymorth fel y nodir yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth) yn ganolog i egwyddorion comisiynu.

*“Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gen i, gyda phobl yn cydweithio i’m deall i, fy nheulu a’m gofalwyr (a’n hanghenion), gyda’m buddiannau gorau’n ganolog, gan roi llais, dylanwad a rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth at ei gilydd a fydd yn sicrhau’r canlyniadau sy’n bwysig i mi”.*

1.42. Mae’r rhan hon o’r Cod yn nodi set o egwyddorion, canlyniadau, gwerthoedd a safonau ansawdd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth. Mae’r Cod hwn yn seiliedig ar **saith egwyddor comisiynu effeithiol a moesegol** y mae’n **rhaid** i gomisiynwyr eu gwreiddio yn eu harferion comisiynu.

1. **Mae perthnasoedd yn bwysig:** Daw perthnasoedd gofalgar, tosturiol a theg o gydgynhyrchu cynhwysol, rhwng darparwyr gofal a chymorth, dinasyddion, comisiynwyr, pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth a chyrff cynrychiadol fel y bo’n briodol.

2. **Mae arweinyddiaeth effeithiol yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn onest:** I ailgydbwyso’r system iechyd a gofal cymdeithasol mae angen i arweinwyr a chomisiynwyr fod yn atebol am greu diwylliannau cadarnhaol sy’n canolbwyntio ar ddysgu. **Dylai** penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a **dylai** arweinwyr geisio gwella a datblygu’n barhaus y systemau dysgu digidol, technolegol a dynol sydd eu hangen i gasglu, rhannu a deall tystiolaeth gan gynnwys effaith ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol, negyddol a niwtral), yn cynnwys data; gyda’r nod o leihau dyblygu data (casglu unwaith, defnyddio sawl gwaith).

3. **Cydweithio: rhannu risgiau, adnoddau ac asedau: Rhaid** i arweinwyr a chomisiynwyr feithrin cyd-ddealltwriaeth o risg, ac o alluogi unigolion mewn ffordd gadarnhaol drwy eu caniatáu i gymryd risgiau, gan gynnwys cymunedau a’r holl asedau sydd ar gael i liniaru risgiau i lesiant y boblogaeth.

4. **Gwerth yw “yr hyn sy’n bwysig”:** Mae gwerth yn *fwy* na chost; mae’n ofal a chymorth diogel ac o ansawdd da sy’n sicrhau canlyniadau sy’n bwysig i bobl ac yn gwella gwerth cymdeithasol. Mae gwerth cyhoeddus yn deillio o gyflawni’r holl gyfrifoldebau cyfreithiol, caffael a rheoleiddiol gan gynnwys cydraddoldebau, hawliau dynol, ac ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, technegol ac amgylcheddol.

5. **Mae gofal a chymorth cynaliadwy yn seiliedig ar waith teg a phrisiau teg: Rhaid** i arferion comisiynu helpu cyflogwyr i wella statws, llesiant ac amodau gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gyda’r nod o sicrhau parch a thelerau ac amodau cyfartal ar draws y sectorau (statudol, preifat a’r trydydd sector).

6. **Cynllunio ar gyfer yr angen presennol ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol:** Mae comisiynu ar gyfer canlyniadau gwell yn weithgaredd tymor canolig i hirdymor; mae cynllunio’n gofyn am lunio rhagolygon, a

**dylai**'r ddarpariaeth ganolbwyntio ar atal (gweler adran 15 o'r Ddeddf) a chynaliadwyedd (gan gynnwys ymrwymiadau carbon).

7. **Tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio drwy straeon *a* rhifau: Dylai** comisiynwyr gasglu tystiolaeth gan bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, am yr hyn sy'n eu helpu i gael bywyd da, ac yna defnyddio hyn i lywio fframweithiau canlyniadau gwasanaeth. **Dylid** mesur perfformiad gwasanaethau yn ôl profiad *a* chanlyniadau a **dylai** comisiynwyr hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwella parhaus, gan adeiladu ar arferion da a'u gwreiddio.

**Safonau Comisiynu**

1.43. Mae'r safonau comisiynu a nodir isod yn berthnasol i bob rhan o'r cylch comisiynu, gan gynnwys ailddylunio a datgomisiynu gwasanaethau. Mae'r safonau'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud â chomisiynu ac yn ategu adnoddau a chanllawiau manylach ar gomisiynu a chaffael effeithiol ar gyfer poblogaethau penodol a modelau gwasanaeth penodol, a fydd yn cael eu cynnwys yn y pecyn cymorth.

1.44. Bwriad y safonau yw:

a) cefnogi'r gwaith o ailgydbwyso gofal a chymorth, sef:
   i. Symud oddi wrth gymhlethdod (prosesau). Tuag at symleiddio.
   ii. Symud oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.
   iii. Symud oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad.
   iv. Symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau.
   v. Symud oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth fwy effeithiol ...

   er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl;
b) gosod meincnodau cenedlaethol i ysgogi gwelliant parhaus o ran comisiynu a darparu gofal a chymorth yng Nghymru;
c) sbarduno trawsnewid comisiynu a darparu gofal a chymorth yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda'r Swyddfa Genedlaethol i ysgogi newidiadau cadarnhaol;
d) gwella cysondeb arferion comisiynu;
e) hyrwyddo integreiddio lleol a lleol iawn, cydgomisiynu a gwneud penderfyniadau ar y cyd;
f) mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyflawni hawliau dynol, ac ategu deddfwriaeth a chanllawiau gan gynnwys:
   i. Deddf Cydraddoldeb 2010[6]
   ii. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[7]
   iii. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[8]
   iv. Deddf Hawliau Dynol 1998[9]

---

[6] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
[7] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child
[8] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities
[9] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents

v. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[10]

1.45. **Rhaid** i bartneriaid statudol allu dangos bod eu harferion comisiynu'n cael eu cynnal yn unol â'r Cod hwn. **Rhaid** i awdurdodau lleol gynnwys tystiolaeth yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch sut mae'r safonau a'r egwyddorion yn y Cod hwn yn cael eu dilyn yn eu harferion comisiynu.

1.46. Mae'r egwyddorion a'r safonau yn y Cod hwn yn cyd-fynd â'r gwerthoedd system gyfan a ddisgrifir yn 'Cymru Iachach', sy'n canolbwyntio ar gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a rhoi modelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith yn lleol, gan wneud y defnydd gorau o asedau lleol, i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

1.47. Er ei fod yn cydnabod manteision safonau ansawdd a chysondeb cenedlaethol, mae'r Cod hwn hefyd yn ceisio cydbwyso safoni cenedlaethol â hyblygrwydd a gwneud penderfyniadau yn rhanbarthol ac yn lleol, i sicrhau bod gofal a chymorth yn ymateb i anghenion ac amodau lleol.

1.48. Cydnabyddir bod yr egwyddorion a'r safonau'n heriol ac yn uchelgeisiol mewn rhai meysydd a byddant yn gofyn am newidiadau ar draws y system gyfan dros amser, gan gynnwys datblygu polisi er mwyn i bartneriaid statudol gyflawni pob uchelgais yn y Cod hwn. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad dwyflynyddol o'r Cod hwn ac, os oes angen, ei weithredu drwy gyflwyno canllawiau comisiynu interim anstatudol ychwanegol o bryd i'w gilydd.

1.49. Mae glynu wrth y safonau hyn yn sicrhau bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru:

a) yn gyson;
b) yn foesegol;
c) yn drawsnewidiol, a
d) yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a nodau llesiant deddfwriaeth Cymru.

**Safon 1:**
**Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddangos gwerthoedd ac egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016**, drwy wneud y canlynol:

a) Cyflawni canlyniadau llesiant
b) Cydgynhyrchu, gyda llais a rheolaeth yr unigolyn yn ganolog i gomisiynu ar gyfer canlyniadau llesiant sy'n canolbwyntio ar y 'person' neu'r 'claf'
c) Cydweithio
d) Ymyrryd yn gynnar ac atal
e) Cynllunio hirdymor, gan ychwanegu gwerth (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol).

[10] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/welsh

**Rhaid** i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddangos tystiolaeth bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn cael ei gydgynhyrchu [wedi'i gyd-ddylunio, ei gydgyflwyno a'i gydwerthuso] ag unigolion sydd angen gofal a chymorth, boed yn byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau preswyl/lleoliadau a rennir, neu eu heiriolwyr a'u gofalwyr.

**Rhaid** i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydweithio a chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ar y cyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, pan fo'n briodol gwneud hynny.

**Safon 2:**
**Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydbwyso pob elfen o'r cylch comisiynu a sicrhau bod ganddynt sgiliau a gallu digonol** i wneud y canlynol:

a) Cyd-ddylunio, cynllunio, darparu/diogelu, monitro a chydwerthuso gwasanaethau gyda darparwyr gofal a chymorth, pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.
b) Cefnogi gwelliant parhaus a datrys problemau ar y cyd â darparwyr gofal a chymorth a phartneriaid perthnasol eraill.

**Rhaid** i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, wrth ymgymryd â'u gweithgareddau comisiynu, sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i feithrin cadernid cymunedol, gan fuddsoddi mewn grwpiau, gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y gymuned drwy'r canlynol:

a) Cymorth ataliol – gwasanaethau cymorth y trydydd sector sy'n aml yn cael eu darparu gan staff cyflogedig ag arbenigedd penodol, gan gefnogi amrywiaeth o wasanaethau gwybodaeth a chyngor.
b) Gwasanaethau Gofal a Chymorth – gwasanaethau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth ar lefelau canolig i uchel.

**Dylai** Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydbwyso'r angen i gefnogi arloesedd a gweithredu'r hyn a ddysgir gan eraill am wasanaethau sy'n cyflawni canlyniadau da.

**Safon 3:**
**Casglu data perthnasol a chywir i sicrhau bod comisiynu'n seiliedig ar ddata ystyrlon a sicrhau capasiti a gallu dadansoddol digonol i lywio cynlluniau comisiynu cadarn.**

**Rhaid** i benderfyniadau comisiynu ac adnoddau fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r canlynol:

a) anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y galw a'r ddemograffeg a ragwelir yn y dyfodol, yn cynnwys yn ôl nodweddion gwarchodedig;
b) y canlyniadau gofynnol ar lefel gwasanaeth, gan gynnwys mynediad prydlon a chyfartal;

c) digonolrwydd ac ansawdd cyflenwad / darpariaeth iechyd, gofal a chymorth yn y dyfodol (adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad);
d) asesu pa wasanaethau fydd orau i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i unigolion, dros amser (tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei werthfawrogi a beth sy'n gweithio).

**Dylai** Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol rannu asesiadau o anghenion y boblogaeth leol a ddefnyddir i ddatblygu a chynhyrchu asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol gyda darparwyr presennol a darparwyr posibl yn y dyfodol (gan gynnwys y rheini y tu allan i wasanaethau gofal a chymorth) er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfranwyr posibl, gan gynhyrchu buddsoddiad mewn meysydd lle mae bylchau wedi'u nodi.

**Rhaid** i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gasglu data yn ymwneud â chanlyniadau cenedlaethol, a pherfformiad yn unol â'r gofynion adrodd presennol, ac adrodd ar y data hyn.

**Rhaid** i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol adolygu asesiadau risg y farchnad leol a rhanbarthol yn rheolaidd a rhoi cynlluniau lliniaru risg ar waith.

**Safon 4:**
**Dangos bod cynlluniau comisiynu a / neu gaffael yn seiliedig ar benderfyniadau ar sail tystiolaeth ynghylch y rheswm/rhesymau dros ddewis y canlynol:**

a) darpariaeth uniongyrchol
b) comisiynu unigol neu ar y cyd
c) tendro / aildendro
d) opsiynau eraill ar gyfer meithrin a sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth mewn cymunedau

**Dylai** Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried pob opsiwn ar gyfer sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys:

a) Cymorth grant (grantiau)
b) Contractio cynghrair (cytundebau pan fo partïon wedi cytuno i weithredu'n ddidwyll i gydweithio i gyflawni nod cyffredin)
c) Partneriaethau arloesi (caffael atebion arloesol nad ydynt ar gael eto neu nad ydynt yn bodoli yn y farchnad)

**Safon 5:**
**Mesur 'gwerth' yn ôl profiad a chanlyniadau pobl o ofal a chymorth** yn ogystal â'r canlynol:

a) safonau ansawdd a diogelwch;
b) effaith amgylcheddol;
c) gwerth cymdeithasol ychwanegol;
d) cost.

**Rhaid** i'r gwaith o gaffael a rheoli ansawdd a pherfformiad gwasanaethau gofal a chymorth (y rhai a wneir o dan gontract a'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol), wneud y canlynol:

a) canolbwyntio ar ganlyniadau (llesiant), diogelwch a chynaliadwyedd (mwyaf manteisiol / gwerth).
b) gwerthuso (mesur) yn ôl eu heffaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol (diben).

**Safon 6:**
**Sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu'n foesegol a'u bod yn seiliedig ar egwyddorion Gwaith Teg.**

**Dylai** Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol helpu cyflogwyr i wella statws, llesiant ac amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws y sectorau (statudol, preifat a'r trydydd sector).

I gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol, **dylai** partneriaid statudol wneud y canlynol:

a) cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd dros ystyriaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ar gomisiynu a chontractau allanol sy'n effeithio ar y gweithlu;
b) cynnal a chyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail tystiolaeth sy'n asesu'r effaith y bydd penderfyniadau ar gomisiynu a chontractau allanol yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys gweithwyr ethnig leiafrifol;
c) monitro darparwyr i sicrhau bod y data gofynnol am y gweithlu yn cael eu darparu.

**Safon 7:**
**Dangos eu bod yn deall costau llawn gofal a ddarperir yn uniongyrchol a gofal a ddarperir o dan gontractau yn eu hardal.**

**Rhaid** i gomisiynwyr gofal a chymorth Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydweithio â Darparwyr i bennu ffioedd teg a chynaliadwy ar gyfer pob gwasanaeth o dan gontract.

Pan fo'n briodol, **dylai** Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol (Cynghorau) gysoni a / neu rannu adnoddau (gan gynnwys cronfeydd ac adnoddau dynol) er mwyn gallu cyflawni cynlluniau ar y cyd yn effeithiol.

**Dylai** Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu fecanweithiau lleol ar y cyd/integredig, pan fo hynny'n briodol, archwilio manteision y canlynol:

a) rhannu adnoddau ar draws unrhyw bartneriaid / pob partner i roi cynlluniau ar waith i wella llesiant y boblogaeth a / neu ansawdd ac argaeledd gofal a chymorth.

b) partneriaethau ehangach e.e. gyda thai, hamdden, llyfrgelloedd ac addysg, gofal sylfaenol a chanolfannau llesiant i hyrwyddo llesiant y boblogaeth gyfan, lleihau'r galw am ofal a chymorth a chynyddu cymorth cynnar.

**Rhaid** i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol gydasesu aeddfedrwydd eu trefniadau comisiynu a'u cysylltiadau integredig a chydweithredol a **dylent** nodi cyfleoedd i wella mewn meysydd allweddol.

**Safon 8:**
**Defnyddio methodolegau neu feincnodau cost rhanbarthol a/neu genedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn y Pecyn Cymorth ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, wrth bennu pris teg a chynaliadwy ar gyfer gofal a chymorth o safon.**

**Rhaid** i gomisiynwyr fod yn dryloyw ac yn gyson wrth bennu cyfraddau ffioedd gan sicrhau eu bod yn asesu costau teg a chynaliadwy gofal a chymorth a sicrhau gwerth cyhoeddus.

**Rhaid** i gomisiynwyr gadarnhau eu cyfraddau ffioedd i Ddarparwyr yn brydlon cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Mae methodolegau cyffredin ar gael i helpu i ddadansoddi costau a datblygu achosion busnes ar gyfer treialu a phrofi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau drwy greu prototeip a graddio gwasanaethau'n gyson.

**Dylai** methodolegau ystyried ffactorau fel daearyddiaeth, cyd-destun sefydliadol, amodau'r farchnad lafur a gofal a pholisi gwaith teg (tâl, telerau ac amodau a fframweithiau dilyniant). **Rhaid** i fecanweithiau cynyddu contractiol gynnwys mecanweithiau priodol ar sail chwyddiant i gyd-fynd â chostau cynyddol.

**Ni ddylai** sefydlu methodolegau a meincnodau cyson dynnu oddi ar ddemocratiaeth leol a phenderfyniadau lleol ynghylch pennu prisiau. **Dylai** comisiynwyr ystyried effaith eu gweithgareddau comisiynu a chaffael ar ddigonolrwydd gofal a chymorth ac ar sefydlogrwydd y farchnad.

**Safon 9:**
**Parhau i adolygu Rheolau Sefydlog ar gyfer Materion Ariannol a Chontractau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben i sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth o'r ansawdd sy'n ofynnol.**

**Dylai** Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol sicrhau bod eu rheoliadau ariannol yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion penodol comisiynu a chaffael gwasanaethau gofal a chymorth.

**Safon 10:**
**Tystiolaeth o weithio rhagweithiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo a chyflawni hawliau dynol.**

**Rhaid** i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddangos sut maent yn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal; mynd i'r afael â gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da a sicrhau bod yr holl

wasanaethau sy'n cael eu comisiynu yn cydymffurfio â rhwymedigaethau hawliau dynol.

**Caffael**

1.50. **Rhaid** i bartneriaid statudol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gaffael bresennol sydd mewn grym ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig wrth gaffael gwasanaethau, a rhaid iddynt gadw at y rhain.

**Broceriaeth**

1.51. Mae broceriaeth yn derm sy'n cael ei ddefnyddio yn aml ar gyfer y broses o drefnu gofal a chymorth i unigolion. **Dylai** broceriaeth roi anghenion a dymuniadau'r person sydd angen gofal a chymorth wrth wraidd y broses bob amser.

1.52. Er bod rolau a gweithgareddau'n amrywio ar lefel leol, mae'r rôl, yng Nghymru, yn gysylltiedig yn bennaf â sefydlu trefniadau gydag asiantaethau cymorth a gofal cartref.

1.53. Gellid lleihau'r angen am rôl broceriaeth ar wahân neu, mewn rhai achosion, ei dileu drwy ddatblygu gweithio amlbroffesiynol; yn enwedig pan fydd timau gofal cartref (statudol a/neu annibynnol) yn cael eu cynnwys fel elfen allweddol o dimau adnoddau cymunedol seiliedig ar leoedd (seilwaith). Mae'r rhaglen seilwaith cymunedol yng Nghymru yn canolbwyntio ar alluogi pobl i fyw'n dda, yn nes at eu cartref drwy atal, dewis, llesiant ac annibyniaeth.

**Defnyddio data i gefnogi comisiynu gwasanaethau**

<u>Darparu data am y gweithlu i Gofal Cymdeithasol Cymru</u>

1.54. **Dylai** comisiynwyr fynd ati'n i annog eu darparwyr i gwblhau a dychwelyd y data am y gweithlu sy'n cael eu casglu'n flynyddol gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae set ddata genedlaethol gywir a chyfredol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn helpu i gynllunio'r gweithlu ar sail gadarn yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

<u>Y Traciwr Capasiti Gofal a Chymorth</u>

1.55. Cyfleuster data ar-lein yng nghyfeiriadur iechyd a llesiant Dewis Cymru yw'r Traciwr Capasiti. Mae'n caniatáu i gartrefi gofal hunanadrodd gwybodaeth sy'n ymwneud â chapasiti gwelyau a swyddi gwag. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio setiau data cenedlaethol. Felly, **dylai** comisiynwyr annog darparwyr i ddefnyddio'r Traciwr Capasiti a diweddaru eu gwybodaeth ynddo.

<u>Cynhwysiant a Hygyrchedd Digidol</u>

1.56. **Rhaid** i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio gyda Darparwyr i annog a chefnogi eu defnydd o atebion digidol ac i sicrhau bod gan y rheini

sy'n defnyddio gwasanaethau fynediad at y rhyngrwyd a dyfeisiau digidol yn ôl yr angen. **Dylai** darparwyr sicrhau bod gan eu staff sgiliau digidol sylfaenol i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau.

Gweithlu Gofal Cymdeithasol

1.57. **Dylai** comisiynwyr annog darparwyr i ddefnyddio porth Gofalwn Cymru i hysbysebu swyddi gwag yn eu sefydliadau.

Cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol

1.58. Wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, **rhaid** i gomisiynwyr ystyried holl ganllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan gynnwys egwyddorion Gwaith Teg. **Dylid** mesur hyn o fewn y broses gaffael a thrwy brosesau monitro contractau.

Y Gymraeg

1.59. Mae cryn dystiolaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn newis iaith pobl. Mae iaith yn elfen hanfodol i bobl o ran diwallu eu hanghenion gofal a chymorth, sicrhau hawliau a gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal.

1.60. **Rhaid** i ddarpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn hawl ac yn fater o angen a rheidrwydd, nid dewis. Mae hyn yn hanfodol ar draws pob grŵp oedran a demograffeg ac mae'n bwysicach fyth i'r rhai mwyaf agored i niwed, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

1.61. **Rhaid** i bartneriaid statudol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a **rhaid** iddynt geisio darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn yn eu bywyd bob dydd. **Rhaid** i bartneriaid statudol, cyn belled ag y bo modd, geisio darparu gwasanaethau cymorth a gofal Cymraeg lleol/cymunedol a **rhaid** i ddigonolrwydd gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

1.62. **Rhaid** i bartneriaid statudol hefyd gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, codau ymarfer a chanllawiau statudol a ddyroddir, a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.

Mwy Na Geiriau

1.63. 'Mwy Na Geiriau'[11] yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw gwreiddio'r Gymraeg yn y maes fel y gall pobl gael gafael ar y gofal y maent

[11] Mwy na geiriau (llyw.cymru)

yn ei haeddu a'i angen, a helpu siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Bydd mabwysiadu a chyflwyno Mwy na Geiriau yn helpu i wella ansawdd y gofal a roddir i unigolion sy'n byw yng Nghymru.

1.64. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn elfen greiddiol o'r fframwaith a'i ystyr, yn syml, yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu diwylliant sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i fynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau Cymraeg er mwyn i bobl allu cael gofal, fel partneriaid cyfartal, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr holl weithwyr mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys comisiynwyr gwasanaethau gofal a chymorth, rôl i'w chwarae o ran gwireddu gweledigaeth strategol Mwy na Geiriau.

1.65. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a **dylai** Mwy na Geiriau ategu'n effeithiol y gwaith o weithredu safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd.

1.66. **Rhaid** i Awdurdodau Lleol a'r GIG lynu wrth ofynion Mwy Na Geiriau a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a sicrhau eu bod yn arfer y 'cynnig rhagweithiol', gan gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na bod rhaid i bobl ofyn amdano.

1.67. Cydnabyddir y gall fod yn heriol i rai darparwyr fodloni'r cynnig rhagweithiol, fodd bynnag, **rhaid** i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau annog y gweithlu i gyfathrebu yn Gymraeg beth bynnag yw lefel y Gymraeg sydd ganddynt, ac annog y gweithlu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

1.68. **Dylai** comisiynwyr ddefnyddio'r cymalau contract cenedlaethol sydd ar gael yn y Pecyn Cymorth yn eu contractau gyda Darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth. Nod y rhain yw sicrhau cysondeb cenedlaethol.

<u>Cydraddoldeb a hawliau dynol</u>

1.69. Mae Cymru a'i phobl yn amrywiol eu natur, felly **rhaid** i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ystyried a chroesawu cydraddoldeb er mwyn gwella canlyniadau i boblogaeth Cymru.

1.70. **Rhaid** i gomisiynwyr roi sylw dyledus i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau ym mhob cam o'r cylch comisiynu i sicrhau bod amrywiaeth a chydraddoldeb yn ganolog i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth. Felly, **rhaid** i gomisiynwyr o leiaf sicrhau eu bod wedi ystyried y dogfennau canlynol, a'u goblygiadau a'u canfyddiadau, wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth:

a) [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol)[12]

[12] https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

b) Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Brofiadau o iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflogau is[13]
c) adroddiad Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru: Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a Gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol[14]
d) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[15]
e) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[16]
f) Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn[17]

1.71. Er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol, datblygwyd cymalau contract arfaethedig a **dylai** comisiynwyr ddefnyddio’r rhain yn eu contractau gyda Darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth. Gellir gweld y cymalau hyn yn y pecyn cymorth.

**Cefnogi’r amgylchedd ac ystyried cynaliadwyedd**

Fel rhan o’r strategaeth **Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru** a chynllun cyflenwi strategol datgarboneiddio GIG Cymru, mae partneriaid gofal cymdeithasol statudol a darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth allanol wedi ymrwymo i’r canlynol:

a) Deall maint presennol allyriadau carbon
b) Nodi sut y gellir lleihau allyriadau carbon
c) Amlinellu pa fesurau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth fforddiadwy o ansawdd uchel heb allyriadau carbon
d) Ac yn bwysicaf oll, cymryd camau datgarboneiddio ar unwaith.

1.72. O fewn yr ymrwymiad hwnnw, ceir y ddau gam gweithredu canlynol:

a) Bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn datblygu’r dull o gaffael darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol i arfarnu eu nodweddion cynaliadwyedd a chael mwy o ddylanwad yn y gadwyn gyflenwi.
b) Bydd yr effaith ar garbon yn cael ei gwerthuso wrth gynllunio, comisiynu a darparu gofal cymdeithasol. Bydd lleihau allyriadau carbon yn orfodol mewn contractau caffael newydd ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol a’r gadwyn gyflenwi sy’n gysylltiedig â gofal cymdeithasol.

1.73. **Rhaid** i Awdurdodau Lleol fonitro, cofnodi a cheisio lleihau’r allyriadau carbon sy’n gysylltiedig â’r gofal y maent yn ei gomisiynu a sicrhau eu bod yn ystyried yr amgylchedd yn ehangach (fel bioamrywiaeth, addasu) fel rhan o’u prosesau comisiynu.

---

[13] https://equalityhumanrights.com/sites/default/files/inquiry-experiences-and-treatment-of-lower-paid-ethnic-minority-workers-in-health-and-social-care-report-cymraeg_0.pdf
[14] Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a Gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | LLYW.CYMRU
[15] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child
[16] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities
[17] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/united-nations-principles-older-persons

1.74. Yn unol ag Ail Gynllun Cyflenwi Carbon Isel Cymru Gyfan (2021-2025), mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal asesiad ac arfarniad blynyddol o allyriadau carbon a defnyddio'r egwyddorion ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd ar garbon a nodir yng Nghanllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Sero Net . Mae'r canllaw hwn yn ceisio sefydlu ôl troed carbon pendant ar gyfer y sector, fodd bynnag, dim ond pan fydd yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol a gomisiynir yn hysbys y mae hyn yn bosibl.

1.75. Mae adnodd wedi cael ei greu, ac mae ar gael yn y Pecyn Cymorth, i ddarparwyr gwasanaethau ei gwblhau i gyflwyno eu data allyriadau carbon i awdurdodau lleol.

### Gofalwyr

1.76. Er mwyn cefnogi comisiynwyr wrth iddynt gomisiynu gweithgareddau neu wasanaethau i gefnogi gofalwyr yn unol â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf, mae nifer o adnoddau ar gael yn y pecyn y **dylai** comisiynwyr eu hystyried.

1.77. Bwriedir i'r ddogfen 'Dulliau arfer da wrth gefnogi gofalwyr yng Nghymru', a gynhyrchwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, gael ei defnyddio gan bartneriaid statudol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i gefnogi'r gwaith o nodi angen, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr.

1.78. Mae'r Pecyn hefyd yn cynnwys 'Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl[1] ("y Siarter")' Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r hawliau cyfreithiol o dan y Ddeddf o ofalwyr "di-dâl" yng Nghymru. Mae'r Siarter yn defnyddio enghreifftiau ymarferol i ddangos sut beth yw arferion da a **dylai** gofalwyr ac unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â dylunio neu ddarparu gwasanaethau neu gefnogi gofalwyr ei ddarllen. Yn unol â'r "Siarter", **rhaid** i bartneriaid statudol, wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, wneud y canlynol:

a) rhoi sylw dyledus i'r hawliau cyfreithiol a roddir i ofalwyr yng Nghymru o dan y Ddeddf,
b) rhoi ystyriaeth gyfartal i ddarparu gwasanaethau cymorth i ofalwyr ym mhob rhan o'r cylch comisiynu;
c) ceisio sefydlu tystiolaeth gywir mewn perthynas â gofalwyr gan gynnwys data ar nifer y gofalwyr yn eu hardal fel sail i'r broses gomisiynu;
d) cymryd pob cam rhesymol, i rymuso gofalwyr i gymryd rheolaeth a sylweddoli pan fo eu hawliau'n cael eu peryglu, drwy godi ymwybyddiaeth o hawliau cyfreithiol gofalwyr yng Nghymru ymysg gofalwyr, unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth a gweithwyr proffesiynol.

### Gwasanaethau i Blant

1.79. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drawsnewid gofal cymdeithasol plant a chael gwared ar elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

[1] https://www.llyw.cymru/siarter-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal

1.80. Mae amrywiaeth o arferion ac adnoddau newydd arloesol i’w hychwanegu at y Pecyn Cymorth i gefnogi’r broses o bontio i fodelau gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a gwella canlyniadau i blant.

1.81. Cyn diwygio’r Cod yn yr adolygiad 2 flynedd ffurfiol cyntaf (a fydd yn cynnwys newidiadau angenrheidiol i gyd-fynd â’r polisi nid-er-elw terfynol), **rhaid** i bartneriaid statudol fod yn ymwybodol o’r ystod o adnoddau sydd wedi’u cynnwys yn y Pecyn Cymorth at y dibenion hyn a defnyddio’r holl adnoddau hyn i wneud y canlynol:

a) comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn unol â’r canllawiau a’r gofynion statudol sy’n esblygu ac sydd wedi’u pennu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni’r agenda polisi nid-er-elw;
b) sicrhau bod buddiannau a hawliau plant yn cael eu hystyried ym mhob rhan o’r broses gomisiynu.

1.82. Mae angen gwasanaethau gofal a chymorth ar blant a phobl ifanc sy’n eu galluogi i dyfu, datblygu, a ffynnu. Cydnabyddir yn eang bod hyn fel arfer yn golygu bod angen iddynt fod yn agos at eu teuluoedd a’u cymunedau a bydd hyn yn nodwedd allweddol o’r polisi nid-er-elw.

1.83. I gefnogi’r datblygiad polisi hwn, **rhaid** i bartneriaid statudol ystyried, fel rhan o’r broses gomisiynu, ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at eu cartref yn amlach, fel y gallant barhau i fod yn rhan o’u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cefnogi, mewn trefniadau byw lleol sydd wedi’u dylunio’n lleol ac sy’n atebol yn lleol.

**Diogelu**

1.84. **Rhaid** i bartneriaid statudol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn hyrwyddo ac yn diogelu llesiant plant ac oedolion sy’n wynebu risg.

1.85. Mae gan bartneriaid statudol **ddyletswydd** o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 i sicrhau bod unrhyw wasanaethau a ddarperir ar eu rhan, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn rhoi sylw i’r angen i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant. Er nad oes dyletswydd gyfreithiol gyfatebol ar hyn o bryd yn achos oedolion sy’n wynebu risg, mae disgwyliad diamwys o degwch, beth bynnag fo’u hoedran, wrth ddarparu gofal a chymorth i bobl. Felly, **dylai**’r rheini sy’n darparu gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion, ar ran partner statudol, bob amser wneud hynny mewn ffyrdd sy’n diogelu oedolion a allai fod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu sydd â risg o hynny.

1.86. Wrth gomisiynu gofal a chymorth, **rhaid** i bartneriaid statudol gyfeirio at y canllawiau statudol canlynol i sicrhau bod materion diogelu’n cael eu hystyried yn ddigonol:

a) Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 1 - Cyflwyniad a Throsolwg (2016)[18]
b) Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 5 - Plant sy'n Wynebu Risg (2018)[19]
c) Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 6 - Oedolion sy'n Wynebu Risg (2018)[20]

1.87. **Rhaid** i bartneriaid statudol ystyried ac ymgorffori'r adnoddau canlynol yn y Pecyn Cymorth, ym mhob gweithgaredd comisiynu:

a) Gweithdrefnau Diogelu Cymru[21]
b) Y safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant, dysgu a datblygu ym maes diogelu[22]

**Fframwaith Nyth/Nest**

1.88. Nod Fframwaith Nyth/Nest yw sicrhau dull 'system gyfan' o ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ar hyd a lled Cymru. Mae hefyd yn ceisio ehangu'r sgwrs i ffwrdd o feddwl mai dim ond gwasanaethau arbenigol sy'n gallu darparu cymorth.

1.89. Mae NEST/NYTH wedi cael ei gydgynhyrchu gan rwydwaith Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP2) ac amrywiaeth eang o randdeiliaid cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022. Mae'n ganlyniad gwaith helaeth gyda phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a staff sy'n gweithio mewn ysgolion a gwasanaethau plant ledled Cymru, gan gynnwys athrawon, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, meddygon, therapyddion a gweithwyr ieuenctid.

1.90. Gan fod Nyth/Nest yn bwysig iawn wrth gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl sy'n ymwneud â babanod, plant a phobl ifanc, **dylai** comisiynwyr ddefnyddio dull fframwaith NYTH/NEST yn eu harferion comisiynu a sicrhau Dull Dim Drws Anghywir. **Dylai** darparwyr gwasanaethau hefyd fod â dealltwriaeth dda o egwyddorion Nyth/Nest wrth ymgymryd â gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer y grwpiau hyn o bobl.

1.91. **Rhaid** i gomisiynwyr hefyd sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, **rhaid** i bartneriaid statudol sicrhau, drwy ddefnyddio manylebau contract, bod hawliau plant yn cael eu cynnal yn eu cyfanrwydd.

[18] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu_0.pdf
[19] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf
[20] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-6--ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-oedolion-syn-wynebu-risg_0.pdf
[21] https://diogelu.cymru/cy/
[22] https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol

1.92. **Dylai** comisiynwyr hefyd sicrhau bod manylebau ar gyfer gwasanaethau yn adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch cydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn unol â'r 'ddyletswydd ar y cyd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad pobl ifanc'[23] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Comisiynu sy'n cael ei wneud gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a/neu gydgomisiynu lleol**

Cryfhau partneriaethau rhanbarthol

1.93. Mae'r Cod hwn wedi'i gysylltu a'i integreiddio'n benodol â Chod Ymarfer Rhan 2 ar Swyddogaethau Cyffredinol a chanllawiau Rhan 9 ar drefniadau partneriaeth sydd wedi'u diweddaru i gryfhau trefniadau partneriaethau rhanbarthol.

1.94. Mae egwyddorion cydweithio, partneriaeth ac integreiddio sydd wedi'u gwreiddio yn Rhan 9 yn uniongyrchol berthnasol i'r Fframwaith Cenedlaethol a'u nod yw:

- gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth;
- gwella canlyniadau ac iechyd a llesiant;
- darparu gofal a chymorth cydlynus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol;
- gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau.

**Rhestr termau**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Gofal a Chymorth** | Mae iddo'r un ystyr ag yn adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf);<br><br>"4. Ystyr "gofal a chymorth"<br><br>Mae unrhyw gyfeiriad at ofal a chymorth yn y Ddeddf hon i'w ddehongli fel cyfeiriad at—<br>(a) gofal;<br>(b) cymorth;<br>(c) gofal a chymorth."<br><br>Mae adran 34 o'r Ddeddf ('Sut i ddiwallu anghenion') yn nodi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person am 'ofal a chymorth'. |
| **Gofalwr** | Yn y Cod hwn, mae person yn ofalwr os yw'n dod o fewn y diffiniad o 'ofalwr' yn adran 3 o Ddeddf 2014.<br><br>Fel arfer, mae gofalwr yn aelod o'r teulu neu'n ffrind sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl yn ei gartref ei hun fel arfer. At ddibenion polisi, mae'n well gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r term 'gofalwr di-dâl' i wahaniaethu rhyngddyn nhw a gweithwyr gofal â thâl.<br><br>Mae'n bwysig nodi, at ddibenion Deddf 2014, **nad** yw person yn ofalwr os yw'n darparu gofal o dan gontract neu yn rhinwedd contract, neu fel gwaith gwirfoddol.<br><br>Fodd bynnag, dylid hefyd nodi fod gan awdurdod lleol, o dan adran 3(8) o Ddeddf 2014, ddisgresiwn i drin person fel gofalwr at ddibenion unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf os yw'r awdurdod o'r farn bod natur y berthynas rhwng y person sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu) gofal a'r person y mae'r gofal hwnnw yn cael ei ddarparu (neu i'w ddarparu) iddo yn golygu y byddai'n briodol i'r cyntaf gael ei drin fel gofalwr at ddibenion y swyddogaeth honno neu'r swyddogaethau hynny. |
| **Y Comisiynydd** | Y person neu'r unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau comisiynu mewn sefydliad |
| **Cymorth grant** | Diffinnir cymorth grant fel taliadau 'nad ydynt yn mynd trwy broses gaffael' a roddir i sefydliadau neu i unigolion allanol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi neu rwymedigaethau statudol y cyrff dyfarnu grantiau. Canolfan Rhagoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru: Safonau Gofynnol ar gyfer Cyllid Grant |

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| **Arweinwyr** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn awdurdod lleol a'r Cyfarwyddwr cyfatebol yn y GIG sydd â chyfrifoldebau dros gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth. |
| **Darparwr/Darparwr gwasanaeth** | Cwmni/sefydliad/person sy'n darparu gwasanaethau i Awdurdodau Lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol. |
| **Partneriaid statudol** | Awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol fel y'u diffinnir yn adran 197 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") h.y.<br><br>a) ystyr **awdurdod lleol** yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;<br>b) ystyr **Bwrdd Iechyd Lleol** yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. |
| **Partneriaethau arloesi** | Pan fo "arloesi" yn golygu gweithredu cynnyrch, gwasanaeth neu broses newydd neu gynnyrch, gwasanaeth neu broses sydd wedi ei wella neu ei gwella'n sylweddol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddull sefydliadol newydd mewn arferion busnes, trefniant gweithle neu gysylltiadau allanol, gan gynnwys gyda'r bwriad o helpu i ddatrys heriau cymdeithasol neu gefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol; mae **partneriaethau arloesi** yn fecanwaith caffael gyda'r nod o ddatblygu cynnyrch, gwasanaeth neu waith arloesol ac yna brynu'r cyflenwadau, y gwasanaethau neu'r gwaith dilynol, ar yr amod eu bod yn cyfateb i'r lefelau perfformiad a'r costau uchaf y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdod contractio a'r cyfranogwyr.<br>Gall awdurdodau contractio benderfynu sefydlu'r bartneriaeth arloesi gydag un partner neu gyda nifer o bartneriaid sy'n cynnal gweithgareddau ymchwil a datblygu ar wahân.<br>Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 |